OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 2826 (Cy.249) (C.97)

TRAFNIDIAETH, CYMRU

Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud - - 25 Hydref 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 99(1) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2006.

(2) Mae darpariaethau a ddaw i rym o dan y gorchymyn hwn yn dod i rym yng Nghymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoli Traffig 2004.

Y Diwrnod penodedig

2.—(1) Daw darpariaethau'r Ddeddf a bennir ym mharagraff (2) isod i rym ar 26 Hydref 2006.

(2) Dyma'r darpariaethau—

(a) adrannau 5(4), 5(5) ac adran 10;

(b) adrannau 16 i 31;

(c) adrannau 72 i 93;

(ch) adrannau 94, 95 a 96;

(d) adran 98 cyn belled ag y mae'n gymwys i Ran 2 o Atodlen 12 (ac o ganlyniad Rhan 2 o Atodlen 12).

(**1**) 2004 p.18.